## Cefnogi eich plentyn gydag iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cynradd)

Tra bod ysgolion ar gau, bydd athrawon yn sicrhau eich bod yn derbyn cyngor a chefnogaeth ar sut i helpu eich plentyn gyda sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Athro eich plentyn bydd ffynhonnell orau'r cyngor hwn. Bydd llawer o'r cyfleoedd dysgu a fydd yn cael eu darparu yn ymwneud ag atgyfnerthu'r hyn y mae eich plentyn yn ei wybod yn barod ac ymarfer sgiliau. Mae datblygu sgiliau iaith a llythrennedd yn cymryd amser, felly peidiwch â theimlo rheidrwydd i gwblhau popeth. Cymrwch arweiniad oddi wrth eich plentyn.

Y peth pwysicaf y gallwch ei wneud gyda'ch plentyn yw **siarad** â nhw a **gwrando** arnynt **yn aml**. Gallwch hefyd eu hannog i ddarllen a **rhannu'r** profiad o ddarllen gyda nhw a gadael iddynt ysgrifennu pan fod pwrpas i wneud hynny. Mae'r gallu i fynegi eu hunain, darllen ac ysgrifennu yn greadigol yn gallu cyfrannu'n sylweddol tuag at iechyd a lles emosiynol eich plentyn.

Manteisiwch ar bob cyfle i gynnwys iaith mewn cyfleoedd dysgu yn ogystal ag yn eich gweithgareddau dyddiol, gan annog eich plentyn i ddatblygu ei greadigrwydd.

Os yw eich plentyn yn dysgu iaith ychwanegol yn yr ysgol, ceisiwch ymarfer ar y cyd gyda nhw a chael hwyl yn siarad ieithoedd sydd yn gyfarwydd iddynt.

Mae pob un o'r camau a amlinellir isod yn cynrychioli cyfnod o amser sylweddol yn nhaith ddysgu eich plentyn, felly does dim disgwyl eich bod yn symud eich plentyn *trwy'r* cyfnodau hyn. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw adnabod pa un yw cyfnod dysgu eich plentyn, ac ymarfer sgiliau o fewn y cyfnod hwnnw.

**Camau Cyntaf**

**Siarad a gwrando**

Pan mae eich plentyn yn dechrau siarad, mae e’n gwneud hyn i ddiwallu rhyw angen. Bydd hyn yn cynnwys ei anghenion emosiynol.

Os yw eich plentyn yn:

- Defnyddio iaith gyfarwydd nad sy’n gywir, e.e. *fi gyda* yn *lle mae gen i*, *caders* yn lle *cadeiriau*
- Dechrau bod yn ymwybodol fod rhywun yn gwrando pan mae’n siarad
- Gallu rhoi disgrifiad syml o rywbeth y mae wedi ei wneud

Gallwch helpu trwy:


- Rannu a mwynhau caneuon, rhigymau a storïau gyda’ch gilydd
- Fanteisio ar bob cyfle i siarad *gyda’ch* plentyn
- Fanteisio ar bob cyfle i ddangos i'ch plentyn sut i siarad â phobl mewn sefyllfaoedd gwahanol
- Annog eich plentyn i adrodd storïau a siarad am yr hyn y mae wedi bod yn ei wneud
- Gefnogi eich plentyn i roi esboniadau a chyfarwyddiadu syml ac i wrando ar aelodau o’r teulu yn gwneud yr un peth

**Darllen**

Mae cam cyntaf darllen i blant ifanc iawn yn dechrau pan maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau.

Os yw eich plentyn yn:

- Dal llyfr yn y ffordd gywir ac yn troi tudalennau
- Edrych ar y geiriau a’r lluniau ac yn dechrau siarad am yr hyn a welant
- Gallu deall bod print yn cario neges



- Dechrau gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y mae yn ei weld mewn llyfrau a’r hyn sy’n digwydd yn ei fywyd

Gallwch helpu trwy:

- Annog mwynhad eich plentyn o ddarllen
- Annog eich plentyn i siarad am y llyfr a’r hyn y mae yn ei feddwl ohono
- Ddefnyddio llyfrau llun gydag ychydig o neu dim geiriau y gall eich plentyn ei *ddarllen* ei hunan
- Ailddarllen ei hoff storïau a rhigymau, a’ch rhai chi hefyd
- Ddangos i'ch plentyn sut i ddilyn geiriau o’r chwith i'r dde, o’r top i'r gwaelod a gadael bwlch rhwng geiriau
- Esbonio sut y gallwn ddefnyddio lluniau i'n helpu i ddarllen geiriau (trwy ddangos y berthynas rhwng y lluniau a’r geiriau – beth allai fod?)
- Wneud y mwyaf o’r cyfle i ddarllen **i** a **gydag** eich plentyn

**Ysgrifennu**

Mae plant ifanc iawn yn dysgu trwy chwarae. Pan mae eich plentyn yn chwarae, gallwch ei helpu i weld bod symbolau ysgrifenedig yn rhan o iaith. Efallai y byddwch yn sylwi ei fod yn dechrau gwneud marciau ar bapur a’i fod yn dechrau adnabod llythrennau. Bydd y marciau y mae yn ei wneud yn edrych yn aml fel llythrennau o’r wyddor, ond bydd yn annhebygol ar y cychwyn ei fod yn sillafu gair. Un o’r geiriau cyntaf y bydd yn ei ddysgu i ysgrifennu bydd ei enw a gallwch ei annog i ymarfer hyn.

Os yw eich plentyn yn:

- Pwyntio at eiriau mewn llyfr
- Ceisio ffurfio llythrennau
- Ymgeisio i ysgrifennu o’r chwith i'r dde

Gallwch helpu trwy:

- Ddangos iddo sut i ddarllen beth y mae ef neu beth yr ydych chi wedi ei ysgrifennu
- Annog eich plentyn i fentro
- Ysgrifennu gydag eich plentyn ac esbonio pwy yw'r gynulleidfa – rhoi rheswm iddo dros ysgrifennu
- Ddangos ei waith ysgrifennu i eraill yn y teulu a dathlu ei ymdrechion

## Symud ymlaen o'r camau cyntaf

Wrth i blant symud ymlaen gyda'u sgiliau iaith, byddant yn dechrau dod yn ymwybodol o'r rhan y mae iaith yn ei chwarae yn ffurfio eu hunaniaeth, yn dechrau deall eu diwylliant ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn.

### Siarad a gwrando

Wrth i blant ddechrau arbrofi gydag iaith, byddant yn dangos gwell gafael ar sut i ddweud pethau yn gywir. Byddant yn deall mai trwy siarad y gallant fynegi eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau.

Os yw'ch plentyn yn:

- Ymwybodol bod yna ffordd gywir o siarad, ond yn parhau i wneud rhai camgymeriadau sylfaenol, e.e. rhai weithiau, gyd o
- Gallu cymryd rhan mewn sgyrsiau syml gydag aelodau o'r teulu
- Ymwybodol bod angen siarad weithiau mewn ffordd wahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. y defnydd o *ti* a *chi*
- Siarad am bwy, beth, ble a phryd wrth roi gwybodaeth
- Gofyn cwestiynau i ddod o hyd i wybodaeth ac esbonio'r hyn y mae yn ei feddwl

Gallwch helpu trwy:

- Barhau i fwynhau rhannu caneuon, rhigymau, cerddi a storïau, gan dynnu sylw at unrhyw batrymau
- Gefnogi eich plentyn i wrando ar eraill gan dalu sylw cynyddol
- Roi cyfleoedd i'ch plentyn i siarad â phobl eraill, yn cynnwys pobl y tu allan i'r teulu os yw’n bosib
- Wneud yn fawr o bob cyfle i siarad *gyda*’ch plentyn, i rannu ei syniadau, i ailddweud storïau ac i roi a derbyn cyfarwyddiadau
- Wrando arno yn clebran am ei ddiwrnod

**Darllen**

Wrth i'ch plentyn ddechrau defnyddio’r hyn y mae yn ei gofio o lyfrau cyfarwydd i baru rhai geiriau llafar ac ysgrifenedig, bydd yn dechrau deall bod print yn cario neges a bydd yn fwyfwy tebygol o allu pwyntio at eiriau. Bydd weithiau yn rhoi sylwadau ar y lluniau o’i wirfodd.

Os yw eich plentyn yn:




- Ffocysu ar ystyr stori yn hytrach na darllen yn gywir
- Defnyddio ei wybodaeth am y testun a’i brofiad personol i wneud synnwyr o’r hyn y mae yn ei ddarllen
- Gallu adnabod geiriau cyfarwydd y mae yn eu gweld yn rheolaidd ar hyd y cartref neu’r ardal leol
- Gallu paru rhai geiriau llafar gyda’r geiriau ysgrifenedig cywir

Gallwch helpu trwy:

- Hybu diddordeb a mwynhad eich plentyn mewn darllen

- Annog eich plentyn i siarad am yr hyn y mae yn ei ddarllen, gan rannu ei feddyliau, hyd yn oed os ydynt yn wahanol i'ch rhai chi
- Siarad am yr ystyr yn y llyfrau yr ydych yn eu rhannu, yn cynnwys ystyr a syniadau cudd
- Ailddweud storïau gyda'ch gilydd mor aml ag sy'n bosib, yn enwedig y rhai sy'n ailadroddus ac yn hawdd eu rhagfynegi
- Gyfeirio at bwysigrwydd sillafu geiriau yn gywir
- Helpu eich plentyn i ymarfer y berthynas rhwng llythyren a sain
- Anelu at ddarllen i'ch plentyn **bob dydd**

**Ysgrifennu**

Wrth i'ch plentyn ddechrau sylweddoli bod modd ysgrifennu yr hyn a ddywedir a bod ffordd gywir o wneud hyn, gall ddechrau arbrofi gydag ysgrifennu geiriau.


Os yw'ch plentyn yn:

- Darllen mas yn uchel yr hyn y mae wedi ei ysgrifennu yn ei eiriau ei hunan
- Dechrau ysgrifennu rhestri syml neu storïau
- Ceisio defnyddio ynganiad geiriau er mwyn eu sillafu
- Dechrau defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd

Gallwch helpu trwy:

- Ddangos iddo sut i ysgrifennu rhestri siopa neu stori a rhannu y rhain gydag eraill
- Annog eich plentyn i gynnwys rhai geiriau aml-ddefnydd, e.e. mae, roedd, ydw, mynd
- Siarad â'ch plentyn – mae hyn yn ei helpu i adeiladu ei eirfa ac i ddeall sut mae brawddegau yn swnio
- Siarad am lythrennau, geiriau a brawddegau pan ydych yn darllen gyda'ch plentyn, wrth fwrw ymlaen gyda'ch trefn ddyddiol neu wrth fynd am dro yn lleol

- Gwneud yn siwr ei fod yn ysgrifennu o’r chwith i'r dde ar draws y dudalen




**<u>Symud ymlaen tuag at annibyniaeth</u>**

**Siarad a gwrando**

Bydd eich plentyn yn dechrau siarad yn addas mewn sefyllfaoedd gwahanol wrth iddo gymryd rheolaeth o’i siarad. Bydd yn adnabod sefyllfaoedd lle bydd ieithoedd rhyngwladol yn cael eu siarad.

Os yw eich plentyn yn:

- Addasu ei siarad i sefyllfaoedd gwahanol, yn cynnwys uchder a chyflymder
- Defnyddio ystumiau ar y cyd gyda lleferydd
- Dewis geiriau i'w defnyddio yn ofalus, e.e. wrth ddisgrifio rhywbeth
- Gallu ailadrodd stori neu ddigwyddiadau yn y drefn gywir
- Gallu cymryd rhan mewn sgyrsiau grŵp
- Gallu cydnabod bod ieithoedd yn rhan o’n diwylliant a’n hunaniaeth

Gallwch helpu trwy:

- Barhau i roi llawer o gyfleoedd iddo wrando ar ac ymateb i storïau, caneuon a cherddi
- Ei helpu i ddeall sut i ddisgrifio’r cymeriadau y mae yn dod ar eu traws yn eu gwahanol gyd-destunau
- Ei helpu i ddeall sut mae cyflwyno ffeithiau
- Ddod o hyd i weithgareddau y gallwch eu gwneud ar y cyd lle gall ymarfer rhagfynegi a chymharu, e.e. yng ngweithgareddau gwyddoniaeth neu fathemateg a ddarperir gan ysgol eich plentyn
- Gymryd yr amser i drafod pethau, rhoi eich barn a gwrando ar farn eich plentyn
- Helpu eich plentyn i ddod o hyd i eiriau newydd, mwy soffistigedig i'w defnyddio wrth siarad
- Roi cyfleoedd iddo i ofyn ac ateb cwestiynau, e.e. wrth gwblhau tasgau datrys problemau
- Roi'r cyfle iddo i ymarfer siarad ieithoedd eraill y mae yn eu siarad neu yn eu dysgu, e.e. Saesneg, Pwyleg, Ffrangeg

**Darllen**

Wrth i’ch plentyn ddangos cynnydd, byddwch yn sylwi ei fod yn dechrau darllen testunau anghyfarwydd yn araf ac yn ofalus, gan ganolbwyntio ar ddarllen pob gair yn gywir.

Os yw’ch plentyn yn:


- Dechrau darllen llyfrau cyfarwydd yn hyderus
- Gallu ailddweud storïau a hanesion o lyfrau sydd yn cynnwys geiriau a lluniau yn ogystal
- Trafod yr hyn y mae yn ei ddarllen trwy gydol yr wythnos, e.e. llythyron, rhestri, ryseitiau, storïau, ayyb.
- Ymwybodol o’r hyn a wna awdur
- Darllen testun air wrth air neu linell wrth linell
- Defnyddio lluniau a’r hyn y mae yn ei wybod am y cynnwys i wirio ei ddealltwriaeth
- Adnabod nifer o eiriau syml mewn cyd-destunau gwahanol

Gallwch helpu trwy:

- Siarad am y syniadau a'r wybodaeth mewn llyfrau a chanfod beth mae eich plentyn yn ei ddeall o'r hyn y mae wedi ei ddarllen
- Gefnogi eich plentyn i ddefnyddio strategaethau darllen a dangos sut yr ydych chi yn eu defnyddio hefyd. Gallai y rhain gynnwys ailddarllen, hunan-gywiro, dod o hyd i eiriau tebyg, torri'r gair i ddarnau llai
- Annog eich plentyn i ddefnyddio ei brofiadau personol a'r hyn y mae'n ei wybod am iaith i wneud synnwyr o'r hyn a ddarllena
- Ymarfer adnabod geirfa sylfaenol, hynny yw, adnabod geiriau trwy'r ffordd y maent yn edrych
- Annog eich plentyn i fwynhau darllen, weithiau yn annibynnol ac i ddewis llyfrau na fyddai fel arfer yn eu darllen
- Ddarllen i'ch plentyn **bob dydd** a rhannu eich pleser chi o ddarllen

**Ysgrifennu**

Pan fydd eich plentyn yn dechrau deall sut caiff brawddeg ei strwythuro a pham mae sillafu ac atalnodi yn bwysig, bydd yn cael yr awydd i ysgrifennu am bethau sydd o ddiddordeb iddo. Peidiwch, fodd bynnag, â disgwyl iddo gael popeth yn iawn trwy'r amser.




Os yw eich plentyn yn:

- Ysgrifennu ystod o destunau, megis storïau, gwahoddiadau a chyfarwyddiadau
- Ysgrifennu am ei ddiddordebau
- Defnyddio strwythurau brawddeg sylfaenol
- Siarad am beth y mae'n ysgrifennu ac i bwy

- Dechrau ysgrifennu am bethau y mae ganddo beth profiad ohonynt a defnyddio geirfa berthnasol
- Dechrau golygu'r hyn mae wedi ei ysgrifennu er mwyn ei wella
- Defnyddio peth atalnodi, megis atalnod llawn a phrif lythrennau

Gallwch helpu trwy:

- Siarad â'ch plentyn am bwrpas ei ysgrifennu a hefyd eich ysgrifennu chi
- Ehangu ei ddewis o ddeunydd darllen fel ei fod yn cael profiad o ystod ehangach o destunau a geirfa, megis llythyron, dyddiaduron ac adroddiadau newyddion
- Helpu eich plentyn i gynllunio ei ysgrifennu cyn dechrau a meddwl am sut y gall ei wella ar ôl gorffen
- Ddangos iddo sut i greu paragraffau mewn darnau hirach o ysgrifennu
- Rannu rhai strategaethau i sillafu geiriau y mae yn ansicr amdanynt
- Ddangos iddo sut i ddefnyddio cysyllteiriau i uno geiriau wrth ysgrifennu, e.e. oherwydd, felly, achos, wedyn
- Annog eich plentyn i ddefnyddio ei ddychymyg i arddweud neu ysgrifennu storïau

**<u>Symud ymlaen tuag at annibyniaeth</u>**

**Siarad a Gwrando**

Wrth i'ch plentyn ddatblygu'n siaradwr annibynnol, bydd yn defnyddio ystod ehangach o eirfa mewn cyd-destunau amrywiol.

Os yw'ch plentyn yn:

- Rhannu syniadau, cynnig cyngor ac yn mynegi barn, ac yn ymateb i'r hyn ddwedwyd gan eraill
- Addasu sut mae yn siarad a'r hyn mae yn ei ddweud mewn sefyllfaoedd amrywiol e.e. mae sgwrs mewn stori yn wahanol i sgwrs mewn cyfweliad
- Medru rhannu gwybodaeth am yr hyn mae wedi ei ddysgu

- Datblygu syniadau er mwyn dod i gasgliad a chyfiawnhau penderfyniadau
- Gwrando ar eraill ac yn deall yr hyn sydd ganddynt i ddweud

Gallwch help trwy:

- Wrando ar eich plentyn yn rhannu gwybodaeth ffeithiol a'i gefnogi i drefnu'r hyn mae eisiau dweud
- Drafod materion a digwyddiadau gyda'ch plentyn a'i helpu i drefnu syniadau a theimladau am y rhain e.e. yr hyn sy'n digwydd ar draws y byd
- Sgwrsio gyda'ch plentyn pan mae'n rhannu profiadau gyda chi a'i gefnogi i ddefnyddio geirfa sy'n bwrpasol ar gyfer y testun dan sylw
- Ganiatáu i'ch plentyn i fod yn rhan o drafodaethau teuluol gan barchu barn eich plentyn ar faterion amrywiol
- Annog eich plentyn i wrando'n empathetig i safbwyntiau eraill

**Darllen**

Wrth i'ch plentyn ddatblygu'n ddarllenwr annibynnol, bydd yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen a bydd yn addasu ei ddarllen yn ôl y testun.

Os yw'ch plentyn yn:

- Defnyddio gwybodaeth o destun, e.e. llythyr, adroddiad, cyfarwyddiadau ayyb er mwyn gwneud synnwyr o'r hyn mae yn ei ddarllen
- Medru ailddweud a thrafod yr hyn mae wedi ei ddarllen gan gyfeirio at blot, cymeriadau a'r prif syniadau
- Medru adnabod ystrydebau
- Dewis strategaethau darllen addas i'w helpu

Gallwch helpu trwy:

- Annog eich plentyn i feddwl yn feirniadol: trwy arsylwi, dehongli, myfyrio, dadansoddi, gwerthuso, rhesymu ayyb
- Helpu eich plentyn i fod yn ymwybodol o safbwynt yr awdur a sut mae hyn yn effeithio ar bobl wahanol
- Drafod yr hyn mae yn ei ddarllen a sut mae hyn yn gwneud i'ch plentyn i deimlo
- Annog eich plentyn i gymharu'r hyn mae'n ei ddarllen gyda thestunau eraill, gan adnabod y prif syniadau, nodweddion cymeriadau, dadansoddi'r plot a hefyd i drefnu syniadau a gwybodaeth
- Annog eich plentyn i fwynhau darllen ac i ddarllen ystod ehangach o ddeunyddiau amrywiol
- Ddarllen i'ch plentyn **bob dydd** a rhannu eich boddhad chithau o ddarllen
- Annog eich plentyn i ddewis testunau darllen eu hunan ac i ddarllen yn ddyddiol
- Annog eich plentyn i drafod yr hyn mae wedi ei ddarllen er mwyn gwneud cysylltiad rhwng yr hyn mae yn ei glywed, ei weld a'i ddarllen





**Ysgrifennu**

Wrth i'ch plentyn ddechrau meistroli ei ysgrifennu, bydd yn medru dewis y math orau o strwythur ysgrifennu ar gyfer diben pwrpasol. Er na fydd angen gymaint o gefnogaeth erbyn hyn, bydd eich plentyn yn dal i wneud camgymeriadau esgeulus wrth sillafu ac atalnodi.

Os yw'ch plentyn yn:

- Medru dewis strwythur addas ar gyfer tasgau ysgrifennu
- Ysgrifennu ar gyfer dibenion ehangach gan gynnwys storïau, adroddiadau, esboniadau
- Yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg ac yn trefnu'r gwaith i baragraffau
- Dewis a dethol geirfa amrywiol sy'n briodol gywir
- Adolygu'r gwaith er mwyn  ei wella



- Defnyddio ystod o atalnodi, gan gynnwys collnod, gofynnod ac atalnod yn gywir

Gallwch helpu trwy:

- Annog eich plentyn i ysgrifennu'n ffeithiol ac yn llenyddol
- Awgrymu y gall arbrofi gydag arddull a strwythur wrth ysgrifennu gan wneud cysylltiadau gyda thestunau mae wedi eu darllen yn flaenorol
- Ddangos sut mae gwneud cysylltiadau rhwng paragraffau
- Fodelu ystod ehangach o gysyllteiriau, e.e. os, wedyn, ers hynny, o ganlyniad,
- Annog eich plentyn i fod yn fwy annibynnol wrth ysgrifennu
- Gefnogi eich plentyn i ddatblygu cywirdeb atalnodi a sillafu gan hefyd adnabod pryd mae angen treiglo

## Yn llwyddiannus annibynnol

### Siarad a gwrando

Erbyn hyn, bydd eich plentyn yn medru addasu ei siarad yn annibynnol ar gyfer amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd.

Os yw'ch plentyn yn:

- Gallu cynnal sgwrs, trafodaeth neu ddadl
- Medru adnabod os yw'r gwrandawr wedi deall ei safbwynt
- Dod i gasgliadau ac yn gallu rhesymu'r hyn mae rhywun arall yn dweud
- Mynegi ei syniadau a'i feddyliau ac yn medru dweud pam
- Gallu siarad am syniadau diriaethol (concrete) a haniaethol (abstract)

Gallwch helpu trwy:

- Annog eich plentyn i fod yn rhan o sgyrsiau mwy heriol bydd yn datblygu ei ffordd o feddwl
- Annog eich plentyn i siarad yn eglur ac yn rhesymegol a hefyd i wrando'n astud
- Gefnogi eich plentyn i ddefnyddio geirfa bwrpasol, addas sy'n gysylltiedig â'r testun trafodaeth
- Sicrhau bod yna gyfleoedd i'ch plentyn i ddwyn perswâd neu ddiddanu ar lafar
- Barhau i sgwrsio gyda'ch plentyn, a sicrhau bod eich plentyn yn gweld gwerth i hyn

**Darllen**

Bydd eich plentyn erbyn hyn yn darllen yn bwrpasol heb fawr iawn o betruso. Bydd yn defnyddio strategaethau amrywiol pan fydd yn ansicr o'r hyn mae yn ei ddarllen. Bydd eich plentyn yn medru gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn mae'n ei wybod yn barod a'r hyn sy'n newydd gan gwestiynu dibynadwyedd y wybodaeth.

Os yw'ch plentyn yn:

- Dechrau trafod strwythur a phwrpas ei ddeunydd darllen
- Medru deall testunau nad ydynt o fewn ei brofiad nac o ddiddordeb iddo
- Dod i gasgliad am yr hyn mae wedi ei ddarllen ac yn medru esbonio sut ddaeth i'r casgliad
- Dechrau defnyddio ystod eang o strategaethau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r testun e.e. rhagfynegi, hunan-wirio, arafu, amnewid geiriau cyfarwydd am eiriau anghyfarwydd
- Medru adnabod y rhan fwyaf o eiriau wrth  eu gweld, gan gynnwys rhai geiriau heriol
- Defnyddio'r hyn mae'n ei wybod am ffoneg i ddarllen geiriau anghyfarwydd: defnyddio llythrennau cychwynnol, defnyddio patrymau a rhannau o eiriau,  uno seiniau a thorri geiriau i rannau
- Cymharu gwybodaeth mae'n ei ddarllen ar yr un pwnc ond mewn gwahanol fathau o destunau

Gallwch helpu trwy:

- Ddangos sut i wneud rhagfynegiadau ac yna penderfynu a yw'n gywir ai peidio

- Barhau i archwilio ystod helaeth o eiriau anghyfarwydd a darganfod tarddiad y geiriau hynny
- Annog eich plentyn i barhau i fwynhau darllen ac i fod yn hyderus i ddewis o ystod eang o destunau
- Ddarllen i'ch plentyn **bob dydd** a rhannu eich boddhad chithau o ddarllen
- Annog eich plentyn i fynegi ei farn ar yr hyn mae wedi ei ddarllen ac i wneud sylwadau am unrhyw safbwynt gwahanol mae wedi dod ar eu traws wrth ddarllen

**Ysgrifennu**

Erbyn hyn bydd eich plentyn wedi datblygu arddull ysgrifennu bersonol ac yn medru dewis strwythur ysgrifennu addas ar gyfer y gynulleidfa, y diben a'r cyd-destun. Bydd wedi meistroli ei sillafu a'i atalnodi a bydd yn defnyddio ystod eang o eirfa gan ysgrifennu'n rhugl mewn arddull sy'n cynnal diddordeb y darllenwr.

Os yw'ch plentyn yn:

- Medru gwneud penderfyniad am arddull a strwythur addas ar gyfer tasgau ysgrifennu
- Gallu esbonio'i waith yn glir gan fyfyrio ar yr hyn mae wedi ysgrifennu
- Mireinio ac addasu syniadau wrth ysgrifennu
- Trefnu'i waith i baragraffau'n gywir
- Defnyddio geirfa'n bwrpasol
- Golygu'i waith wrth ysgrifennu a hefyd ar ôl gorffen
- Defnyddio ystod eang o atalnodi ac yn treiglo'n gywir fel arfer

Gallwch helpu trwy:

- Annog eich plentyn i ddadansoddi gwaith awduron amrywiol pan mae yna gyfleodd i wneud hynny e.e. newyddion ar-lein, cylchgronau, testunau ffeithiol, storïau
- Barhau i fodelu eich ysgrifennu eich hun pan mae yna gyfleoedd

- Annog eich plentyn i rannu ei waith gydag eraill

**Symud o'r Cynradd i'r Uwchradd**

Pan mae eich plentyn yn symud o'r cynradd i'r uwchradd, bydd yn adeiladu ar y sgiliau sydd ganddo eisoes a bydd yn parhau i'w defnyddio ar draws y cwricwlwm.

**Siarad a Gwrando**

Os yw'ch plentyn yn:

- Siarad am ei deimladau a'i feddyliau am symud i ysgol uwchradd a'r newidiadau fydd yn ei wynebu
- Siarad am faterion cyfoes ac yn gwylio rhaglenni newyddion
- Mynegi'r hyn sydd ar ei feddwl a'i syniadau
- Siarad gyda ffrindiau trwy gyfryngau cymdeithasol
- Ymarfer ei waith ysgrifennu ar lafar
- Defnyddio geirfa addas i drafod a gwerthuso ei waith

Gallwch helpu trwy:

- Wrando ar eich plentyn a'i gysuro gan gynnig sicrwydd y bydd yn cael cefnogaeth wrth staff yn yr ysgol uwchradd
- Drafod yn agored yr hyn mae eich plentyn yn ei weld a chlywed gan ddefnyddio geirfa bwrpasol
- Awgrymu geirfa fwy soffistigedig pan fydd yna gyfleoedd addas i wneud hynny
- Sicrhau bod eich plentyn yn teimlo'n gyfforddus am yr hyn mae wedi ei drafod gyda chi ac nad yw'n teimlo o dan bwysau
- Gynnig canmoliaeth iddo wrth iddo fynegi ei deimladau personol

**Darllen**

Pan ddaw plant yn ddarllenwyr, gall fod yn anodd cynnal eu brwdfrydedd i ddarllen yn ddyddiol, ond mae'r cyfnod hwn yn allweddol i sicrhau eu bod nhw yn darllen yn rheolaidd. Ni fydd angen annogaeth ar rai i wneud hyn, ond bydd angen arweiniad ar eraill er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i ddarllen.

Os yw'ch plentyn yn:



- Ddarllenydd annibynnol, hyderus a rhugl
- Awyddus i ddarllen testunau ffeithiol e.e.llyfrau gwybodaeth, papurau newydd, cylchgronau chwaraeon, ayyb.
- Medru dod i gasgliad am yr hyn sy'n cael ei ddweud mewn testun
- Darllen erthygl newyddion ar-lein neu mewn papur newyddion er mwyn casglu gwybodaeth
- Darllen testunau ffuglen sy'n pryfocio'r meddwl

Gallwch helpu trwy:

- Annog eich plentyn i barhau i ddarllen ystod eang o destunau **yn ddyddiol**
- Beidio â phoeni os nad yw'ch plentyn yn mwynhau darllen testunau ffuglen. Mae'n well gan rai plant destunau ffeithiol.
- Ofyn i'ch plentyn i roi rhesymau am unrhyw gasgliadau mae wedi cyrraedd
- Annog eich plentyn i ystyried dibynadwyedd gwybodaeth yn rheolaidd
- Holi eich plentyn am y cymeriadau – ydy'ch plentyn yn medru dangos empathi gyda nhw? Uniaethu â nhw? Medru adnabod cymeriadau tebyg mewn bywyd go iawn?
- Osod esiampl dda trwy siarad am yr hyn rydych chi'n ei ddarllen a sicrhau fod yna lyfrau o gwmpas y cartref

**Ysgrifennu**

Erbyn hyn, bydd nifer o blant yn ysgrifennu at amryw o ddibenion; i roi gwybodaeth, i roi cyfarwyddiadau, i ddwyn perswâd, i ddangos empathi, i adrodd stori ayyb. Bydd y strwythurau ysgrifennu yma yn datblygu dros amser o ran soffistigeiddrwydd geirfa ac arddull. Byddan nhw'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol gan ddefnyddio atalnodi, treigladau, geirfa briodol a chystrawenau amrywiol ar gyfer effaith.

Os yw'ch plentyn yn:

- Ysgrifennu am bynciau a digwyddiadau  gyda soffistigeiddrwydd a gwybodaeth gynyddol
- Cynllunio'i waith ysgrifennu'n addas ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd amrywiol
- Prawf-ddarllen, hunan-olygu a chyflwyno ei waith
- Ysgrifennu darnau ffuglen yn annibynnol
- Cysylltu ei ddarllen a'i waith llafar i'w waith ysgrifenedig

Gallwch helpu trwy:

- Gefnogi eich plentyn i ddefnyddio geirfa sy'n bwrpasol i'r testun, cynnwys addas a sicrhau fod y cyflwyniad yn addas i'r gynulleidfa
- Annog defnydd o eirfa fentrus a pharagraffau sy'n cysylltu ag yn llifo o un i'r llall
- Siarad am gysylltiadau gyda meysydd eraill ar draws y cwricwlwm a hefyd o fewn bywyd eich plentyn
- Ddathlu ymdrechion eich plentyn

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working